



Ein cyf/Our ref MA-P/KW/4550/18

Lynne Neagle AC Chair
Children, Young People and Education Committee

Ein cyf/Our ref MA-P/KW/4550/18

Lynne Neagle AC Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

18 Rhagfyr 2018

Annwyl Lynne

Diolch am eich llythyr dyddiedig 23 Hydref yn sôn am lansio'r ymchwiliad i gyllido ysgolion.

Cododd eich llythyr nifer o gwestiynau penodol mewn perthynas â'ch ymchwiliad, yr wyf wedi ymdrin â nhw isod:

Eich asesiad a'ch barn o ran digonolrwydd cyllidebau ysgolion a'r graddau y mae lefel bresennol y ddarpariaeth yn helpu i gyflawni blaenoriaethau ac amcanion addysg Llywodraeth Cymru

Er gwaethaf rhaglen cyni cyllidol barhaus Llywodraeth y DU a gostyngiadau parhaus, mewn termau real, yng nghyllideb Cymru, rydym wedi cymryd camau i ddiogelu Awdurdodau Lleol a gwasanaethau ysgol rheng flaen.

Ar 20 Tachwedd, bu'n bosibl inni gyhoeddi pecyn o gynigion cyllido ychwanegol gwerth cyfanswm o £141.5m dros dair blynedd i lywodraeth leol, a gaiff ei gynnwys yn y Gyllideb derfynol. Mewn perthynas ag ysgolion, mae hyn yn cynnwys swm ychwanegol o £15m dros ddwy flynedd (£7.5m yn 2018-19 a 2019-20) er mwyn helpu awdurdodau lleol i ddelio â'r pwysau cost mewn ysgolion, gan gynnwys gweithredu codiad cyflog yr athrawon.

Er mai'r setliad hwn yw'r ffynhonnell unigol fwyaf o arian sydd ar gael i lywodraeth leol ar gyfer ysgolion, nid dyma'r unig ffynhonnell o arian a ddarperir gennym. Rydym hefyd yn rhoi cryn dipyn o arian grant er mwyn helpu i wella deilliannau i ddysgwyr, drwy'r Grant Datblygu Disgyblion; Grant Gwella Ysgolion y Consortia Rhanbarthol, sy'n cynnwys y Grant Gwella Addysg i Ysgolion; a'n cymorth ariannol i Awdurdodau Lleol ar gyfer ysgolion bach a gwledig ac i leihau maint dosbarthiadau.

Fis diwethaf, fel rhan o'r Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol, cyhoeddais fuddsoddiad ychwanegol o £9 miliwn yn y flwyddyn ariannol hon, a fydd yn cynyddu i £15

miliwn y flwyddyn ariannol nesaf ar gyfer dysgu proffesiynol er mwyn sicrhau bod gan ysgolion yr amser a'r adnoddau sydd eu hangen arnynt i gynllunio ymlaen llaw ar gyfer y cwricwlwm newydd. Dyma'r buddsoddiad unigol mwyaf i gefnogi athrawon yng Nghymru ers datganoli.

Y ffordd yr ystyrir gofynion gwasanaethau addysg ac, yn benodol, ysgolion o fewn cyfanswm y setliad a roddir i awdurdodau lleol a'r ffordd y caiff ei ddyrannu i awdurdodau lleol

Mae setliad llywodraeth leol heb ei neilltuo sy'n golygu mai mater i awdurdodau yw penderfynu sut y byddant yn gwario'r arian hwn yn ôl anghenion a blaenoriaethau lleol. Mae fformiwla ariannu'r setliad yn ystyried yr angen cymharol i awdurdodau wario ar draws pob gwasanaeth, o ystyried faint o arian sydd ar gael i'w ddsbarthu a gallu cymharol awdurdodau i godi incwm yn lleol, drwy'r dreth gyngor.

Mae fformiwla'r setliad yn asesu angen cymharol awdurdodau i wario drwy gyfrifo 'Asesiadau Safonol o Wariant' ar draws meysydd gwasanaeth tybiannol a elwir yn Asesiadau wedi'u Seilio ar Ddangosyddion. Pennir cyfanswm Cymru ar gyfer pob un o'r Asesiadau hyn sydd wedi'u Seilio ar Ddangosyddion drwy edrych ar gyfanswm yr arian sydd ar gael, ychwanegu elfen dybiedig o incwm o'r dreth gyngor ac wedyn ddsrannu arian rhwng y gwasanaethau tybiannol drwy ddefnyddio data am wariant wedi'i gyllidebu a gwariant gwirioneddol awdurdodau lleol, ar lefel Cymru.

Wedyn caiff pob Asesiad wedi'i Seilio ar Ddangosyddion ei ddsbarthu rhwng y 22 o awdurdodau drwy ddefnyddio fformiwla'u a ddatblygwyd ac y cytunwyd arnynt gyda llywodraeth leol drwy Gyngor Partneriaeth Cymru a'i Is-grwpiau. O fewn y system, mae potensial i wneud newidiadau sylweddol i'r fformiwla ariannu, ond mae'n rhaid gwneud hyn gyda chefnogaeth gyfunol llywodraeth leol, drwy'r trefniadau partneriaeth sydd ar waith.

Mae'r Asesiadau wedi'u Seilio ar Ddangosyddion ar gyfer gwasanaethau addysg yn dosbarthu arian yn seiliedig yn bennaf ar niferoedd disgyblion, ond gan hefyd ystyried anghenion gwahanol awdurdodau drwy gynnwys dangosyddion amddifadedd a theneurwydd poblogaeth.

Ar ôl i ddyraniad pob un o'r Asesiadau hyn sydd wedi'u Seilio ar Ddangosyddion gael ei gyfrifo, caiff y rhain eu hadio at ei gilydd a chaiff y tybiaethau o ran y dreth gyngor eu gwrthdroi allan er mwyn darparu un swm ar gyfer pob awdurdod, a elwir yn Gyllid Allanol Cyfun, nad yw'n addas i'w rannu'n elfennau ar gyfer gwahanol wasanaethau.

Mae'n bwysig nodi nad yw Asesiadau Safonol o Wariant yn dargedau gwario - mae awdurdodau lleol yn penderfynu sut y byddant yn gwario'r arian hwn ynghyd ag incwm arall o grantiau penodol, y dreth gyngor ac incwm arall o werthiannau, ffioedd a thaliadau. Awdurdodau Lleol sy'n gwbl gyfrifol am benderfynu faint o arian a ddyrennir i bob ysgol unigol, ac yn unol â'u swyddogaeth statudol i gynnig darpariaeth addysg briodol i bob dysgwr yng Nghymru. Mae pob Awdurdod Lleol yn pennu ei fformiwla ei hun ar gyfer ariannu ysgolion mewn ymgynghoriad ag ysgolion drwy ei fforwm cyllideb ysgolion, ac yn unol â'r fframwaith deddfwriaethol a ddarperir gan *Reoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010*.

Ceir rhagor o wybodaeth am fformiwla ariannu setliad llywodraeth leol yn y Llyfr Gwyrdd drwy ddilyn y ddolen ganlynol:

<https://gov.wales/topics/localgovernment/finandfunding/settlement/lq-settlement-2018-19/green-book-2018-19/?lang=cy>

Y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn monitro'r flaenoriaeth y mae awdurdodau lleol yn ei rhoi i gyllidebau addysg ac ysgolion yn eu cyllideb gyffredinol, gan gynnwys lefelau cyllid dirprwyedig i ysgolion ac unrhyw waith a wneir i fonitro gwariant wedi'i gyllidebu yn erbyn Aseidiadau Safonol o Wariant ac Aseidiadau wedi'u Seilio ar Ddangosyddion

Aseidiadau Safonol o Wariant yw'r system a ddefnyddir i ddsbarthu cyllid setliad llywodraeth leol. Maent yn cynnwys meysydd gwasanaeth tybiannol, sy'n ceisio modelu'r angen cymharol i wario ym mhob awdurdod ac ym mhob gwasanaeth, o ystyried faint o arian sydd ar gael a gan wneud tybiaethau ynghylch gallu cymharol awdurdodau i godi incwm yn lleol drwy'r dreth gyngor. Nid ydynt yn dargedau gwario ar unrhyw gyfrif ac ni ddylent gael eu trin fel y cyfryw gan llywodraeth leol na llywodraeth ganolog.

Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi'r holl ddata ar wariant llywodraeth leol gan gynnwys ysgolion yn ein datganiadau ystadegol. Rydym hefyd yn rhestru gwariant refeniw net ar addysg wrth ochr yr Aseiad wedi'i Seilio ar Ddangosyddion ar gyfer addysg yn natganiad yr ysgolion.

Trosolwg Llywodraeth Cymru o'r fformiwla a ddefnyddir gan awdurdodau lleol i ddyrannu cyllidebau dirprwyedig i ysgolion unigol o dan Reoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010.

Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi arian i Awdurdodau Lleol ar gyfer darpariaeth cyn-16 mewn ysgolion yn bennaf drwy Setliad Refeniw Llywodraeth Leol ar ffurf y Grant Cynnal Refeniw. Nid yw'r Grant Cynnal Refeniw wedi'i glustnodi; mae'r cyllid a ddyrennir i bob Awdurdod ar gael i'r Awdurdod ei wario fel y gwêl yn dda ar amrywiaeth o wasanaethau y mae'n gyfrifol amdanynt, gan gynnwys ysgolion. Mae hyn yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru mai Awdurdodau Lleol sydd yn y sefyllfa orau i farnu anghenion ac amgylchiadau lleol ac ariannu ysgolion yn unol â hynny; maent yn atebol i'w hetholwyr am y penderfyniadau a wnânt.

O ran ariannu ysgolion, Awdurdodau Lleol sy'n gwneud y penderfyniadau ynghylch lleoliad ysgolion, eu maint ac i ble y caiff plant eu derbyn. Maent yn goruchwylio'r system gyfan yn eu hardal ac, felly, mae'n gwneud synnwyr mai nhw sy'n penderfynu sut y caiff ysgolion eu hariannu hefyd. Ar ôl i'r Grant Cynnal Refeniw gael ei ddsbarthu i awdurdodau lleol, yr awdurdodau unigol sy'n gyfrifol am bennu cyllidebau ar gyfer eu hysgolion drwy ddefnyddio fformiwla ariannu leol.

Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010

Mae Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010 yn darparu'r fframwaith lle mae Awdurdodau Lleol yn pennu eu dyraniadau cyllid ar gyfer ysgolion. Mae'r Rheoliadau yn sicrhau cysondeb gyda'r gofyniad i 70% o gyllidebau ysgolion gael eu pennu yn seiliedig ar niferoedd disgyblion. Mae gan Awdurdodau Lleol ddisgresiwn i ddsbarthu'r 30% sy'n weddill ar sail amrywiaeth o ffactorau er mwyn iddynt allu ystyried amgylchiadau ysgolion unigol. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol ymgynghori â'u fforymau cyllideb ysgolion a phob ysgol yn eu hardal wrth bennu fformiwla ariannu.

Mae'n rhaid i ffactorau neu feini prawf ychwanegol megis maint a chyflwr adeiladau a thiroedd, ardrethi, glanhau, prydau ysgol a llaeth, cyflogau, ysgol ar safle rhanedig, anghenion addysgol arbennig dysgwyr, ac ati, hefyd gael eu hystyried yn fformiwla'r Awdurdod Lleol. Gall hyn effeithio ar faint o arian a gaiff pob ysgol unigol. Ceir rhagor o wybodaeth am y ffactorau ychwanegol hyn o dan reoliad 18, Atodlen 3 i Reoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010, drwy ddilyn y ddolen ganlynol:

<http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2010/824/contents/made>

Ariannu Teg/Fformiwla Ariannu Genedlaethol

Mae'n anochel y bydd unrhyw fformiwla ariannu genedlaethol yn rhoi rhai adnoddau lle mae llai o angen amdanynt ac yn herio'r broses ddemocrataidd sy'n darparu i arbenigedd a gwybodaeth leol bennu cyllid priodol i ddiwallu anghenion lleol. Mae'n hanfodol sicrhau y caiff adnoddau eu targedu lle mae eu hangen fwyaf a bod awdurdodau yn gweithio'n agos gydag ysgolion er mwyn sicrhau bod y buddsoddiad yn sicrhau gwelliannau gwirioneddol o ran ansawdd yr addysg a gaiff disgyblion.

Uned Disgyblion wedi'i Phwysoli yn ôl Oedran (AWPU)

Yr AWPU yw'r gyfradd a bennir gan Awdurdodau Lleol er mwyn dyrannu cyllid hawlogaeth sylfaenol ar gyfer disgyblion cyn-16 mewn ysgolion priif ffrwd. Mae hwn yn ffactor gorfodol yn fformiwla ariannu'r ALI ar gyfer ysgolion ac nid yw Llywodraeth Cymru yn ymdrin ag ef. Gall ALLau newid pwysoliad eu AWPU ar gyfer blwyddyn neu grŵp blwyddyn penodol er mwyn cynyddu neu leihau'r pwysoliad ariannol ar y flwyddyn honno neu'r grŵp blwyddyn hwnnw.

Disgwylir i ddull Awdurdodau Lleol o ariannu ysgolion amrywio rywfaint oherwydd yr amrywiadau a geir o ran eu hystadau ysgolion a'u hanghenion demograffig yn ogystal â'r cyfrifoldebau y mae ALLau yn eu dirprwyo i ysgolion.

Y ffigur ar gyfer cyllid cyfartalog fesul disgybl

O ran yr ystadegau a gyhoeddir gennym, mae'r ffigur ar gyfer cyllid cyfartalog fesul disgybl yn adnodd ystadegol i helpu i feithrin dealltwriaeth o wariant cymharol awdurdodau ar addysg yn gyffredinol. Nid yw'n adlewyrchu'r hyn a gaiff ysgolion mewn gwirionedd na'r hyn y dylent ei gael yn eu cyllidebau dirprwyedig. Fe'u cyfrifir drwy rannu cyllideb gyffredinol yr ysgol â nifer y disgyblion. Mae ond yn cynnwys arian sydd wedi'i drosglwyddo i'r ysgol. Cedwir rhywfaint o'r gyllideb gan yr awdurdod lleol er mwyn ariannu gwasanaethau a ddarperir yn ganolog, megis cludiant ysgol. Mae'r gyfran o'r gyllideb a gedwir gan bob awdurdod lleol yn wahanol ledled Cymru ac, felly, ni fyddai cymhariaeth â chyfartaledd ar gyfer Cymru yn briodol.

Crynodeb o'r fformiwlâu a ddefnyddir gan bob awdurdod lleol, os oes gan Lywodraeth Cymru y wybodaeth hon (noder bod y Pwyllgor wedi ysgrifennu at bob awdurdod lleol yn gofyn am fanylion am hyn)

Mae adran 52 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn ei gwneud yn ofynnol i bob Awdurdod Addysg Lleol (AALI) baratoi datganiad cyllideb sy'n cynnwys gwybodaeth am ei wariant arfaethedig ar ysgolion a gynhelir.

Crynodeb o ddatblygiadau polisi allweddol sy'n effeithio ar y ffordd y caiff ysgolion eu hariannu ers gwaith Pwyllgor yr Ail Gynulliad ar Ariannu Ysgolion, a gyhoeddwyd yn 2006, gan gynnwys canlyniadau 'Adolygiad Bramley'.


Cyhoeddodd y Pwyllgor Menter a Dysgu adroddiad ar y trefniadau ar gyfer ariannu ysgolion yn 2008, ac adroddiad dilynol yn 2009.

Ers hynny, cyflwynodd Llywodraeth Cymru Fodel Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol. Y prif grant a geir gan gonsortia rhanbarthol er mwyn helpu i wella ysgolion yw'r Grant Gwella Addysg. Cyflwynwyd y Grant Gwella Addysg ym mis Ebrill 2015 yn dilyn rhaglen o resymoli grantiau o fewn prosesau gwella ysgolion. Mae'r Grant Gwella Addysg bellach wedi'i gyfuno â Grant Gwella Ysgolion y Consortia Rhanbarthol sy'n dwyn ynghyd pob grant arall, 22 i gyd, o fewn dim ond dau grant.

Gobeithio y bydd y wybodaeth hon yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor.

Kirsty Williams AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Kirsty Williams', is centered on a light gray rectangular background.

Kirsty Williams AC/AM

Y Gweinidog Addysg
Minister for Education